**Cylch Meithrin Nefyn**

**Mae'r pandemig wedi bod yn gyfnod anodd iawn i blant, pa wahaniaeth mae mynychu Cylch Meithrin yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi cael ar iechyd a lles corfforol a meddyliol plant?**

Yn sicr, mae sgiliau cymdeithasol plant wedi cael eu heffeithio oherwydd y cyfnod clo, yn ogystal ag iaith rhai plant. Ar ôl agor, mae'n amlwg bod y plant yn mwynhau bod yn y cylch i gael gwneud gweithgareddau a chwarae gyda phlant o'r un oed. Yn dilyn yr ail gyfnod clo, fe arhosodd rhai plant adref tan hanner tymor Chwefror. Roedd yn amlwg fod y cyfnod byr yna o'r Nadolig wedi effeithio rhai. Roedd rhai yn dawelach ac wedi colli ychydig o hunan hyder.

**Ers i gylchoedd Meithrin fedru ail-agor, pa wahaniaeth rydych yn meddwl fod mynychu Cylch Meithrin wedi ei gael ar rieni / gwarchodwyr?**

Dwi'n siŵr fod y cylch wedi bod yn fendith i rai rhieni. I'r rhai sy'n gweithio o gartref, dwi'n siŵr bod cael ychydig o amser heb blant adref wedi eu hwyluso i fedru gweithio mewn llonyddwch am gyfnod. Mae'n gyfle i rieni fynd yn ôl i arferiad y cartref, fel gallu mynd i siopa bwyd heb orfod dod a'u plant gyda nhw.

**Pa weithgareddau wnaethoch gyda'r plant?**

Ers cychwyn yn ôl, rydym wedi bod yn treulio llawer o amser yn yr awyr agored, plannu, chwilota am drychfilod a gwneud ymarfer corff fel mynd i barc yr ysgol a chael defnyddio'r beics a'r ceir/tractorau mawr. Rydym wedi cael penbyliaid a chwningen i ymweld â'r Cylch hefyd. Mae'r plant i gyd wedi mwynhau gwneud crefftau a phaentio. Efallai nad yw rhai yn ffodus o gael y profiadau yma gartref.

**Wrth i gylchoedd Meithrin ail-agor, gafodd hyn effaith ar eich staff, ac os felly, beth?**

Roedd y staff i gyd yn bryderus i gychwyn yn ôl. Roedd y ffaith nad oeddem yn cael ein blaenoriaethu i gael y brechlyn (pan oedd ar gael) yn peri pryder. Ond ers i ni dderbyn y profion LFT, mae'n rhoi mwy o gysur i ni fel staff ddod i'r gwaith yn saff.

**Beth oedd yr heriau wrth i chi ail-agor eich Cylch Meithrin? Sut wnaethoch oresgyn y rhain?**

Y brif her oedd paratoi'r dosbarth cyn agor. Gan fod holl adnoddau / teganau yn gorfod cael eu glanhau/ diheintio ar ôl sesiwn Cylch, roedd rhaid lleihau'r nifer o adnoddau / teganau ag i ni eu cylch droi o bryd i'w gilydd. Yn ffodus, roedd yr holl blant a ddaeth i'r Cylch ym mis Medi yn newydd, ac felly doedd ganddyn nhw ddim disgwyliadau o faint o adnoddau / teganau oedd ar gael iddyn nhw. Roedd y Cylch yn ddiolchgar o dderbyn grant ail agor er mwyn gallu prynu sied newydd ar gyfer storio holl adnoddau sbâr sydd gennym.